# 2018/2019 Polisi Dyrannu Llety

Swansea University
Prifysgol Abertawe

## Diben

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisi dyrannu ar gyfer lletyau sy'n eiddo i'r brifysgol ac sy'n cael eu rheoli ganddi o fewn y Gwasanaethau Preswyl. Mae'r polisi dyrannu yn cael ei adolygu yn flynyddol ac yn agored i newid. Mae'r Gwasanaethau Preswyl yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl geisiadau yn cael eu hymdrin mor deg a thryloyw ag sy'n bosibl drwy gydol y broses ddyrannu.

## 1. Cyfrifoldeb

Rheolwr Dyrannu a Gweinyddu'r Gwasanaethau Preswyl ynghyd â Phennaeth y Gwasanaethau Preswyl.

## 2. Yn berthnasol

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i staff sy'n ymwneud â'r broses o ddyrannu myfyrwyr i lety sy'n eiddo i'r brifysgol ac a reolir ganddi, sef: Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan, Campws Singleton, Campws y Bae, Tŷ Beck a gosodiadau Gwasanaethau Llety Myfyrwyr

## 3. Diffiniadau / Disgrifiadau

Ddim yn berthnasol

## 4. Dogfennau cysylltiedig

- Gweithdrefn Dyrannu Llety

## 5. Dosbarthiad

I'w gadarnhau

**CYNNWYS** **Tudalen**

**Pwyswch CTRL a chliciwch ar yr adran briodol.**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Llety sydd ar gael | 4 |
| 3. | Y myfyrwyr sy'n sicr o gael llety | 5 |
| 4. | Categorïau eraill a all gyflwyno cais (heb sicrwydd o lwyddiant) | 8 |
| 5. | Blaenoriaeth dyrannu | 11 |
| 6. | Grwpiau nad ydynt yn gymwys i gyflwyno cais | 11 |
| 7. | Y broses apelio | 13 |
| 8. | Dyddiadau allweddol | 14 |
| 9. | Rhwymedigaethau ariannol | 14 |
| 10. | Trosglwyddo a’r rhestr aros | 15 |
| 11. | Meddiannu ystafell a symud allan | 16 |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae portffolio llety Prifysgol Abertawe yn cynnwys adeiladau sy'n cael eu rheoli gan y brifysgol ar y campws ac oddi arno. Mae neuaddau Campws Singleton a Thŷ Beck yn cael eu rheoli mewn partneriaeth ag adran llety myfyrwyr Cymdeithas Tai Gwalia, sef Pobl, sy'n gyfrifol am waith atgyweirio a chynnal a chadw mewn perthynas â'r cyfleusterau. Mae Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan yn eiddo i St. Modwen Student Living ac yn cael ei reoli gan y brifysgol. Mae neuaddau preswyl Campws y Bae wedi'u dyrannu gan y Gwasanaethau Preswyl dan gytundeb enwebu gyda St. Modwen Student Living. Mae Gwasanaethau Llety Myfyrwyr yn dyrannu ac yn rheoli portffolio o eiddo oddi ar y campws dan gytundebau "prif brydlesi" i fyfyrwyr yn y sector preifat ac yn hysbysebu eiddo trydydd parti arall i fyfyrwyr.

Mae amrywiaeth o fathau gwahanol o lety ar gael, gan amrywio o neuaddau traddodiadol i fflatiau a thai a rennir. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan: http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/

Gwneir ceisiadau am lety ar-lein gan fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd ac mae'r meini prawf (y polisi dyrannu) yn cael eu cyhoeddi cyn i'r broses ymgeisio ddechrau.

Mae'r Gwasanaethau Preswyl yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau oddi wrth fyfyrwyr waeth beth fo’u hoedran, cefndir ethnig neu genedlaethol, hil, crefydd, rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau, a chredoau a gweithgarwch gwleidyddol neu grefyddol, oni bai fod y gweithgareddau hynny yn anghyfreithlon neu'n groes i bolisïau’r brifysgol.

Mae'r polisi dyrannu yn cael ei adolygu yn flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu nodau ac amcanion strategol y brifysgol ac yn cymryd i ystyriaeth gofynion y corff myfyrwyr, yn dilyn ymgynghoriad.

**Pennaeth y Gwasanaethau Preswyl**, **11 Ebrill 2017**

## 2. LLETY'R BRIFYSGOL SYDD AR GAEL

Am wybodaeth gyfredol ynghylch ein lleoedd preswyl, ewch i'n gwefan, ble gallwch weld manylion am y cyfleusterau a gwybodaeth am renti, ardaloedd dynodedig a hyd tenantiaethau.

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/einpreswylfeydd/

Gellir gweld y meini prawf cymhwysedd ar gyfer myfyrwyr sy’n gwneud cais am lety’r brifysgol trwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/rheoliadauallyfrynnau/gwarantauachymhwyso/

### Ardaloedd dynodedig o fewn preswylfeydd

Mewn ymateb i'r galw gan fyfyrwyr, mae’r Gwasanaethau Preswyl i fyfyrwyr wedi rhoi rhai ardaloedd mewn preswylfeydd i’r neilltu er mwyn darparu ar gyfer y dewisiadau canlynol:

- Siaradwyr Cymraeg – ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno byw gyda siaradwyr Cymraeg eraill. Er y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i lenwi'r fflat â siaradwyr Cymraeg, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser ac mae'n ddibynnol ar y niferoedd sy'n gwneud cais ac sy'n tynnu'n ôl / gohirio eu hastudiaethau.
- Fflatiau di-alcohol – ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno byw mewn amgylchedd di-alcohol.
- Fflatiau tawelach – gyda chyfyngiadau ar sŵn rhwng 11pm ac 8am.
- Fflatiau i fyfyrwyr hŷn – ar gyfer myfyrwyr sy'n 21 neu'n hŷn.
- Fflatiau un rhyw – gall myfyrwyr wneud cais i fyw mewn fflat sydd wedi’i dynodi ar gyfer menywod yn unig neu ddynion yn unig.

**Noder – Efallai na fydd ystafelloedd yn yr ardaloedd hyn ar gael bob amser, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny sy'n gwneud cais ar ôl y dyddiad gwarant, sef 30 Mehefin.**

### Ystafelloedd diwrnodau agored

Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n ymweld ag Abertawe ar ddiwrnodau agored yn gallu gweld llety myfyrwyr, mae’r Gwasanaethau Preswyl wedi clustnodi rhai fflatiau arddangos i fyfyrwyr sy'n hapus i groesawu myfyrwyr ar ddiwrnodau agored. I gael mwy o wybodaeth, gweler isod: http://www.swansea.ac.uk/accommodation/residences/viewingrooms/

### Eiddo Gwasanaethau Llety Myfyrwyr

Mae Gwasanaethau Llety Myfyrwyr yn hysbysebu ac yn rheoli, neu'n hysbysebu yn unig, portffolio o eiddo sy'n berchen i landlordiaid preifat. Gellir archebu'r llety hwn gan bob myfyriwr o fis Tachwedd

ymlaen (bydd yr union ddyddiad yn cael ei nodi ar wefan Gwasanaethau Llety Myfyrwyr). Ar gyfer israddedigion, ceir contract 47 wythnos o hyd.

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/gwasanaethaulletymyfyrwyr/

---

## 3. EIN GWARANT LLETY

Am fanylion neu ein gwarant, darllenwch yr wybodaeth ar ddechrau'r dudalen we isod:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/rheoliadauallyfrynnau/gwarantauachymhwyso/

Mae'r warant yn berthnasol i'r canlynol:

**Is-raddedigion newydd**

- Myfyrwyr sydd wedi derbyn cynnig diamod neu gynnig cadarn amodol gan Brifysgol Abertawe
- Myfyrwyr gofal iechyd a myfyrwyr meddygol graddedig – gweler ein tudalen penodol:

**http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/ymgeisioamlety/cyrsiauhydansafonol/**

**Graddedigion newydd –**

**http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/myfyrwyrol-raddedig/**

- Myfyrwyr sydd wedi cael cynnig diamod gan Brifysgol Abertawe i ymgymryd â chwrs meistr, cwrs diploma neu Gwrs Ymarfer y Gyfraith
- Myfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar gyfer doethuriaeth neu leoliad Meistr Ymchwil (Mres), ar yr amod eu bod yn talu ffioedd llawn
- Myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i astudio cwrs ôl-raddedig, ar ôl astudio eu gradd gyntaf ym Mhrifysgol Abertawe

**SYLWER:Nid oes gan y Gwasanaethau Preswyl y gallu ar hyn o bryd i sicrhau llety i raddedigion sydd angen aros y tu hwnt i ddyddiad eu tenantiaeth.Bydd cymorth yn cael ei gynnig i'r myfyrwyr hyn i ddod o hyd i lety byr dymor addas yn y sector preifat, ond ni ellir rhoi sicrwydd am hyn**.

### Myfyrwyr cyfnewid / myfyrwyr sy'n ymweld

Ceir tudalen we benodol sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer myfyrwyr cyfnewid rhyngwladol sy'n dymuno byw yn llety'r brifysgol:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/ymgeisioamlety/cyrsiauhydansafonol/

Yr unig fyfyrwyr y gellir gwarantu llety iddynt yw:

- Myfyrwyr sy'n ymweld ac sy'n talu ffioedd ar y cynllun cynhwysol
- Myfyrwyr Abertawe sydd ar y cynllun astudio dramor

- Bydd y Gwasanaethau Preswyl yn gallu cynnig llety i'r myfyrwyr hyn ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan yn bennaf neu mewn eiddo a reolir gan Wasanaethau Llety Myfyrwyr, er y gall myfyrwyr wneud cais am le yn yr holl breswylfeydd. Cyfrifoldeb y myfyrwyr bydd gwneud cais am lety ar-lein ar gyfer yr ystafelloedd hyn. Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n derbyn ystafell ar gyfer y flwyddyn lawn heb hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl y bydd yn gadael yn ystod yr ail semester ond yn cael ei ryddhau o dan weithdrefn drosglwyddo / tynnu'n ôl y brifysgol, a bydd yn rhaid iddo dalu am yr ystafell nes bod tenant newydd ar gael.

### Myfyrwyr ag anghenion cymorth arbennig

- Bydd y Gwasanaethau Preswyl yn cael eu hysbysu gan y Swyddfa Anabledd o fyfyrwyr newydd sydd ag anabledd ac sydd angen offer ychwanegol neu gymorth, ar yr amod eu bod wedi nodi hynny ar eu ffurflen UCAS. Bydd y Gwasanaethau Preswyl, y Swyddfa Anabledd a'r myfyriwr yn cydweithio wedyn i sicrhau bod unrhyw addasiadau neu offer penodol yn cael eu gosod. http://www.swansea.ac.uk/cy/anableddau/
- Gellir cael gwybodaeth lawn am y cymorth sydd ar gael o fewn llety i fyfyrwyr a chanddynt anabledd ar ein gwefan: http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/cymorthsyddargael/

### Myfyrwyr sy'n dychwelyd (DU)

Bydd nifer y myfyrwyr sy'n dychwelyd a ganiateir i gael llety am flwyddyn ychwanegol yn ddibynnol ar y galw a ragwelir gan fyfyrwyr newydd. Pennir blaenoriaeth yn ôl y drefn ganlynol:

- Myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf
- Myfyrwyr yn eu blwyddyn derfynol a graddedigion
- Myfyrwyr mewn blynyddoedd eraill

Mae'n bosibl y bydd y Gwasanaethau Preswyl yn cyfyngu ar geisiadau gan ddilyn y meini prawf canlynol:

- Uchafswm o ddwy flynedd mewn preswylfa
- Myfyrwyr blwyddyn derfynol yn unig
- Lleoedd ar gael mewn preswylfeydd/safleoedd a nodwyd yn unig
- Rhoddir blaenoriaeth i ystafelloedd yng Nghampws y Bae i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar y safle, ond mae croeso i'r holl fyfyrwyr wneud cais amdanynt

Nid yw'r meini prawf uchod yn berthnasol i lety o fewn y portffolio eiddo sy'n cael ei reoli gan Wasanaethau Llety Myfyrwyr. Mae gan yr holl fyfyrwyr (h.y. myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig) yr hawl i ymgeisio am le yn yr eiddo hwn, ond mae'n rhaid eu bod wedi cofrestru ar gwrs

astudio/ymchwil llawn amser ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.  Nid oes cyfyngiad ar y nifer o flynyddoedd y gall myfyrwyr fyw yn y llety hwn ond nid oes gwarant y gall myfyriwr aros mewn llety penodol am nifer o flynyddoedd olynol.

**SYLWER:Ni fyddai myfyrwyr sy'n perthyn i'r categorïau isod fel arfer yn gymwys i dderbyn llety prifysgol ar gyfer unrhyw flwyddyn academaidd ddilynol:**

- Mae ganddynt rent sy'n ddyledus ar gyfer cyfnod preswyl blaenorol neu wedi cyrraedd cam "Trydydd Llythyr Atgoffa" yn y Weithdrefn Rheoli Dyledion.
- Maent wedi bod yn destun camau disgyblu oherwydd achosion difrifol o dorri rheoliadau preswylfa, gan arwain at gosbau o fewn Cam D ac E y matrics disgyblu.

Dylai unrhyw apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig at Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl.

### Bydd myfyrwyr (rhyngwladol) sy'n dychwelyd yn cael cynnig:

- Uchafswm o dair blynedd mewn preswylfa

### Bydd teuluoedd a chyplau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yn cael cynnig:

- Uchafswm o dair blynedd mewn preswylfa –
- Mae'r llety i gyplau yn agored i gyplau priod a di-briod, yn ogystal â chyplau o'r un rhyw
- Mae gan rieni sengl a myfyrwyr sy'n beichiogi yn ystod eu hastudiaethau yn Abertawe hefyd hawl i wneud cais
- Yn ystod blynyddoedd pan fydd y galw amdano yn benodol o isel, mae'n bosibl y bydd y Gwasanaethau Preswyl yn caniatáu i rai teuluoedd / myfyrwyr tramor aros am flwyddyn ychwanegol ond dim ond ar ôl i bob categori cymwys arall o fyfyrwyr gael llety

**SYLWER:**Ni all y brifysgol gynnig llety i deuluoedd sydd â mwy na thri phlentyn oedran ysgol a babi oherwydd bod y fflatiau tair ystafell wely yn Nhŷ Beck wedi'u dynodi ar gyfer uchafswm o bump o bobl.

### Myfyrwyr sy'n iau na 18 oed

- Bydd myfyrwyr sy'n iau na 18 oed ac na fyddant yn cyrraedd yr oedran hwn yn ystod wythnosau cyntaf y tymor academaidd yn cael blaenoriaeth wrth ddyrannu llety dros fyfyrwyr eraill, ar yr amod fod llety addas ar gael.
- Dolen gyswllt i bolisi dan 18 oed – a all hwn gael ei roi ar dudalen we Gweithdrefnau?

### Nofwyr ac ysgolorion chwaraeon elitaidd

- Gellir gwarantu llety i'r myfyrwyr hyn ar Gampws Singleton dim ond os bydd Pennaeth yr Adran Chwaraeon ac Adloniant Corfforol yn cadarnhau eu bod yn ffurfio rhan o'r sgwad nofio elitaidd ac ar yr amod eu bod yn gwneud cais am lety cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin.

### Siaradwyr Cymraeg

Gweler y manylion ar y dudalen isod:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/ymgeisioamlety/cymrycymraeg/

SYLWER: Os nad oes digon o alw i lenwi fflat neu fod myfyriwr yn tynnu'n ôl / gohirio ei astudiaethau hanner ffordd drwy'r flwyddyn, mae'n bosibl y bydd yr ystafelloedd gwag yn cael eu llenwi â myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## 4. CATEGORÏAU ERAILL A ALL WNEUD CAIS OND NAD OES SICRWYDD Y BYDDANT YN CAEL LLE

Mae'r adran hon yn ymwneud â myfyrwyr a phartïon eraill sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Abertawe sy'n gallu gwneud cais am lety yn ddibynnol ar argaeledd.

**Israddedigion newydd – Gellir dod o hyd i fanylion am yswiriant a myfyrwyr sy'n mynd drwy'r broses clirio yma:**

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/ymgeisioamlety/

Myfyrwyr cyfnewid a'r rhai sy'n ymweld – gweler
http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/ymgeisioamlety/cyrsiauhydansafonol/

### Myfyrwyr sy'n cyrraedd yn ystod y flwyddyn academaidd

- Dylai'r myfyrwyr hynny y mae eu cwrs yn dechrau yn ystod cyfnodau eraill yn ystod y flwyddyn academaidd wneud cais ar-lein yn y dull arferol. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd uchod. Yn unol â chyfnodau eraill, bydd myfyrwyr a fydd yn astudio am weddill y flwyddyn academaidd yn cael blaenoriaeth dros y myfyrwyr hynny sydd am aros am gyfnodau byrrach.
- Bydd y myfyrwyr hynny na ellir cynnig llety iddynt ym mhreswylfeydd y brifysgol yn cael eu cyfeirio at Wasanaethau Llety Myfyrwyr i gael cymorth.

### Myfyrwyr sydd ar gwrs a gynigir gan y Gwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS)

#### *Myfyrwyr sy'n gwneud cais yn ystod y flwyddyn academaidd (Medi hyd at Fehefin)*

Yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd myfyrwyr ELTS yn gymwys i wneud cais ar gyfer llety'r brifysgol ond ni fyddant yn derbyn llety hyd nes y bydd yr holl fyfyrwyr yn y categorïau gwarantedig wedi derbyn sylw:

Mae'n debygol na fydd gan fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais ar yr adeg hon ddewis ynghylch llety

Dylai myfyrwyr sy'n cyrraedd ar gyfer cyrsiau â dyddiadau dechrau yn y flwyddyn academaidd ym mis Ionawr ac Ebrill wneud cais ar-lein a byddant yn cael cynnig ystafell os oes lle gwag addas yn bodoli, ond ni ellir gwarantu hyn. Dylai'r myfyrwyr hynny sy'n cyrraedd heb iddynt gysylltu ymlaen llaw â'r Gwasanaethau Preswyl, neu sydd heb wneud cais, drefnu lle mewn tŷ llety lleol oherwydd ni fydd llety dros dro ar gael.

### Myfyrwyr sy'n gwneud cais am gyrsiau cyn-sesiynol

- Yn ystod gwyliau'r haf, bydd myfyrwyr ELTS yn derbyn llety ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan ac ar Gampws Singleton, lle bydd nifer cyfyngedig o ystafelloedd safonol ac ystafelloedd en-suite ar gael. ~~Dim ond ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan y ceir llety ar gyfer myfyrwyr sy'n mynychu'r cwrs haf 12 wythnos.~~
- Rhaid gwneud taliadau ar gyfer cyrsiau iaith yr haf wrth dderbyn cynnig am ystafell.
- Bydd y myfyrwyr hyn, sy'n talu ffioedd, yn cael blaenoriaeth dros ymwelwyr eraill ac academyddion.
- Mae ELTS hefyd yn derbyn archebion am leoedd ar gyfer cyrsiau byr a chyrsiau sydd wedi'u teilwra yn unigol ar gyfer grwpiau na fydd yn mynd yn eu blaen i astudio ym Mhrifysgol Abertawe – gwneir ymdrechion i roi llety i'r grwpiau hyn os oes modd.

### Myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl neu ohirio eu hastudiaethau

Efallai y byddai modd i'r myfyrwyr hynny sydd wedi gohirio eu hastudiaethau aros yn y llety am weddill y flwyddyn academaidd, ar yr amod fod caniatâd wedi'i roi gan Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl a bod tenantiaeth newydd wedi'i llofnodi. Bydd yn rhaid i'r myfyrwyr hyn dalu am unrhyw gyfnod yn y llety ymlaen llaw.

### Myfyrwyr ar gyrsiau mewn sefydliadau sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Abertawe

Mae croeso i'r canlynol wneud cais am lety, ond ni fydd lleoedd yn cael eu dyrannu tan fod y catgorïau uchod wedi cael sylw.

- Myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe
- Myfyrwyr Diploma Cenedlaethol Uwch

### Ymwelwyr academaidd / lleoliadau gwaith / myfyrwyr sy'n ymweld (heb gael eu cofrestru)

Mae'n bosibl y bydd modd cynnig llety i'r uchod yn ystod tymor yr haf, yn ddibynnol ar argaeledd.

I wneud cais am ystafell, dylid anfon neges e-bost at accommodation@swansea.ac.uk gan roi manylion o'r dyddiadau pan fydd angen llety a hefyd yr adran academaidd sy'n cynnal eu gwaith ymchwil neu leoliad.

Rhaid i'r ymweliad fod yn ymwneud â'r byd academaidd – ni all cyn-fyfyrwyr nad ydynt yn ymgymryd â gwaith ymchwil neu ar leoliad ar hyn o bryd drefnu llety gyda'r brifysgol yn y ffordd hon. Byddant yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Cynhadledd i archebu lle drwy'r llwybr hwn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i grwpiau a fydd yn ymweld â'r brifysgol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Bydd angen talu'n llawn ar gyfer y categorïau archebu uchod ymlaen llaw. Bydd angen archebu pythefnos o leiaf.

### Myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau

Bydd myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau ym mis Awst yn gallu gwneud cais am ystafelloedd drwy gysylltu â'r Swyddfa Gynadledda. Bydd gwybodaeth am sut i gadw lle yn cael ei hanfon drwy Swyddfa Arholi'r Gofrestrfa Academaidd.

### Myfyrwyr sy'n mynychu'r seremoni raddio

Bydd ystafelloedd ar gael ar y campws ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n mynychu'r seremoni raddio, a hynny drwy'r Swyddfa Gynadledda. Bydd hefyd yn bosibl llogi ystafelloedd ar gyfer aelodau teulu drwy system cadw lle'r Swyddfa Gynadledda.

### Myfyrwyr sy'n dymuno aros dros gyfnod yr haf

Bydd myfyrwyr presennol Prifysgol Abertawe sy'n dymuno aros mewn llety dros gyfnod yr haf yn gallu gwneud cais ar-lein ym mis Mai gan ddefnyddio'r system ceisiadau ar-lein. Tra gwneir pob ymdrech i'w helpu, ni all y Gwasanaethau Preswyl roi sicrwydd y bydd llety addas ar gael yn ystod yr amser y gwneir cais amdano. Ar y cyfan, dim ond ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan y ceir llety dros yr haf.

### Rhieni a ffrindiau

Bydd ystafelloedd i aelodau teulu a ffrindiau ar gael drwy system cadw lle'r Swyddfa Gynadledda ar gyfer gwyliau'r haf yn unig, ar wahân i'r fflat i westeion yn Nhŷ Beck, sydd ar gael i breswylwyr a'u

gwesteion drwy gydol y flwyddyn. Gellir archebu hon drwy gwblhau'r ffurflen archebu a thalu'r ffi ymlaen llaw.

## 5. BLAENORIAETH DYRANNU

Am fwy o fanylion, ewch i'n tudalen we
http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/rheoliadauallyfrynnau/gwarantauachymhwyso/

Ym mhob categori, mae'r Gwasanaethau Preswyl yn cynnig llety gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:

- Anabledd / blaenoriaeth feddygol / gofynion penodol*
- Bydd myfyrwyr sy'n astudio yng Nghampws y Bae yn cael blaenoriaeth dros fyfyrwyr sy'n astudio yn Singleton
- Myfyrwyr sy'n iau na 18 oed
- Dyddiad derbyn eich cais
- Dyddiad y derbyniwyd ar y cwrs/rhaglen
- Hoff lety

*Mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth feddygol/ategol i'r Gwasanaethau Preswyl a rhaid nodi manylion ar ffurflen gais y llety. Efallai na fydd yn bosibl ailddyrannu ystafelloedd neu ddarparu ar gyfer anghenion penodol yn agos at ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

**Er bod myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn gallu cyflwyno cais ar gyfer preswylfeydd y brifysgol neu'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr, nid oes rhaid i'r Gwasanaethau Preswyl gynnig llety am fwy nag un flwyddyn ar y tro.**

## 6. MYFYRWYR NEU BARTÏON ERAILL NAD YDYNT YN GALLU CYFLWYNO CAIS NA DEFNYDDIO LLETY A REOLIR GAN Y GWASANAETHAU LLETY MYFYRWYR / Y BRIFYSGOL NEU SY'N EIDDO IDDYNT

### Categorïau o fyfyrwyr sydd:

- Heb ddechrau ar eu cwrs
- Heb gofrestru â'r brifysgol cyn y dyddiad cau a osodwyd
- Wedi tynnu'n ôl oddi wrth eu hastudiaethau ac nad ydynt yn fyfyrwyr bellach
- Wedi gohirio eu hastudiaethau (oni bai y byddant yn parhau â nhw yn ystod yr un flwyddyn academaidd)

### Myfyrwyr nad ydynt wedi cofrestru neu nad ydynt wedi dechrau ar gwrs:

Nid yw myfyrwyr sydd heb gofrestru'n llawn â'r brifysgol yn gymwys i fyw ym mhreswylfa'r brifysgol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i eiddo'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr.

Bydd myfyrwyr sydd yn y categori hwn yn:

- Derbyn gohebiaeth i gadarnhau eu statws fel myfyriwr
- Cael eu hysbysu nad ydynt yn gymwys i gael llety yn y brifysgol am nad ydynt wedi'u cofrestru fel myfyriwr
- Cael eu gwahodd i gwblhau eu cofrestriad yn y brifysgol – yn yr achos hwn, bydd hawl ganddynt wedyn i gyflwyno cais am lety neu barhau yn yr un breswylfa/tŷ

### Myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl neu wedi gohirio eu hastudiaethau:

Dylai myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl neu sy'n gohirio eu hastudiaethau lenwi'r ffurflen ~~tynnu'n ôl / gohirio astudiaethau~~ cais i adael llety a'i chyflwyno i'r Gwasanaethau Preswyl cyn gynted â phosibl:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/rheoliadauallyfrynnau/

Bydd y Gwasanaethau Preswyl yn derbyn hysbysiad wythnosol o fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl neu sy'n gohirio eu hastudiaethau oddi wrth y Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth a byddant yn cysylltu â myfyrwyr sydd heb gyflwyno ffurflen i sicrhau bod un yn cael ei chwblhau.

### Myfyrwyr sydd angen llety dros dro

Nid oes gan Brifysgol Abertawe unrhyw lety dros dro wedi'i ddynodi ar gyfer myfyrwyr naill ai ar ddechrau blwyddyn academaidd neu yn ystod un. Dylai myfyrwyr sydd heb wneud cais am lety neu sydd heb hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl eu bod wedi cyrraedd Abertawe drefnu lle mewn tŷ llety lleol ar gyfer nosweithiau cyntaf eu harhosiad.

Ni all y brifysgol dalu rhan o'r llety hwn na'i drefnu ar ran y myfyriwr. ~~Gellir dod o hyd i restr o dai llety ar wefan y Gwasanaethau Preswyl.~~ Am fwy o wybodaeth ynghylch gwestai a thai llety lleol, ewch i'r dudalen we isod:

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/a-y/

### Achosion lle gellir gwrthod cais i gael llety

Gellir gwrthod llety i fyfyrwyr am flynyddoedd ychwanegol, y tu allan i'r cyfyngiadau a nodwyd uchod, ar sail y rhesymau canlynol:

- Mae ganddynt rent sydd heb ei dalu ar gyfer cyfnod preswyl blaenorol neu eu bod wedi cyrraedd cam "Llythyr Atgoffa 3" y Weithdrefn Rheoli Dyled.

- Maent wedi bod yn destun camau disgyblu o ganlyniad i achosion difrifol o dorri rheoliadau preswylfa, gan arwain at gosb o fewn Cam D ac E o'r matrics disgyblu.

- Os canfyddir, ar ôl cynnig llety, fod gan fyfyriwr gofnod troseddol sy'n ei gwneud yn amhriodol iddo fyw mewn amgylchedd cymunedol, ni fydd y cynnig yn ddilys bellach. Mae'n rhaid i unrhyw faterion o'r math hwn gael eu datgelu ar adeg cyflwyno'r cais. Bydd y Swyddog Dyraniadau yn gwneud yr asesiad cychwynnol; bydd unrhyw apêl a dderbynnir yn cael ei phrosesu gan Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl.* **Gweler hefyd yr adran apeliadau isod**

Gall myfyrwyr sy'n dymuno trefnu llety mewn eiddo sy'n berthyn i'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr ac sydd wedi derbyn cynnig oddi wrth y brifysgol sydd heb gael ei gadarnhau eto wneud hyn. Fodd bynnag, os nad yw eu cynnig yn cael ei gadarnhau a bod y denantiaeth wedi dechrau, byddant yn gyfrifol am dalu'r rhent sy'n ddyledus nes gellir dod o hyd i denant arall. Os nad yw'r denantiaeth wedi dechrau eto, cedwir eu blaendal.

Nid oes modd cynnig llety mewn eiddo sy'n berthyn i'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr i unrhyw un nad yw'n fyfyriwr.

---

## 7. Y BROSES APELIO

Dylai myfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad sy'n gysylltiedig â dyrannu ystafell gyflwyno achos ysgrifenedig i ddecrhau i Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl. Os na ellir datrys y sefyllfa yn ystod y cam hwn, bydd yr apêl yn cael ei throsglwyddo wedyn at Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr.

Pan ddarganfyddir bod gwybodaeth ffug neu gamarweiniol wedi cael ei darparu i gefnogi cais ar ôl symud i lety, neu os bydd trosedd yn cael ei chyflawni yn dilyn hynny:

1. Bydd swyddog perthnasol y Gwasanaethau Preswyl yn ysgrifennu at y myfyriwr yn amlinellu'r anghysondeb, gan ofyn i'r myfyriwr gyflwyno ateb ysgrifenedig sy'n esbonio pam mae gwybodaeth ffug neu gamarweiniol wedi cael ei darparu.

2. Bydd yr ymateb yn cael ei gyfeirio at Bennaeth y Gwasanaethau Preswyl, a fydd yn penderfynu p'un a oes gan yr ymgeisydd achos i'w ateb ai peidio.

3. Os penderfynir bod achos i'w ateb, bydd y myfyriwr yn cael ei wahodd i ymateb cyn y gwneir penderfyniad ynglŷn â sancsiynau posib.

4. Os penderfynir, ar ôl ystyried ymateb y myfyriwr i'r honiad, y bu'n ymgais fwriadol i gyflwyno gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, neu fod trosedd wedi'i chyflawni sy'n ei gwneud yn amhriodol i'r myfyriwr fyw mewn amgylchedd cymunedol, bydd un neu
fwy o'r cosbau canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

- Efallai y bydd y myfyriwr yn cael ei symud i lety amgen
- Efallai y gofynnir i'r myfyriwr adael llety'r brifysgol

5. Gall myfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno apêl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ynghylch unrhyw un o'r sancsiynau a osodir wneud hynny.

---

## 9. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL

Cyfrifoldeb y myfyriwr yw hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl am unrhyw newidiadau i'w gynlluniau i astudio yn Abertawe neu ynglŷn â'i ddewis llety.

### Diddymu cofrestriad cyn cyrraedd

Bydd blaendal y myfyrwyr hynny sy'n gohirio eu lle am flwyddyn yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ganlynol ar yr amod eu bod yn hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl cyn dechrau dyddiad y denantiaeth.

Bydd myfyrwyr sydd wedi talu blaendal cadw o £350 ac sy'n canslo eu llety erbyn 2 Awst yn derbyn ad-daliad o £100.00. Mae hyn yn berthnasol i'r myfyrwyr canlynol:

- Myfyrwyr sydd wedi derbyn cynnig diamod cadarn
- Myfyrwyr sy'n dychwelyd
- Myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl neu ohirio eu hastudiaethau

**SYLWER:Nid yw hyn yn berthnasol i eiddo sy'n berthyn i'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr – mewn achos o ganslo, bydd blaendal y myfyriwr yn cael ei gadw oni bai y gellir dod o hyd i fyfyriwr i gymryd ei le a bod blaendal newydd yn cael ei dalu**

### Myfyrwyr nad ydynt yn cyrraedd yn brydlon

Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr nad ydynt yn cyrraedd erbyn canol dydd ar y dydd Llun yn dilyn dyddiad dechrau'r denantiaeth ac sydd **heb** hysbysu'r Gwasanaethau Preswyl y byddant yn cyrraedd yn hwyr yn cael eu trefniadau llety wedi'u canslo ac y bydd y blaendal yn cael ei gadw.

Ni ellir cadw ystafelloedd y tu hwnt i'r wythnos gyntaf o'r tymor oni bai fod rhent y tymor cyntaf wedi'i dalu ymlaen llaw. Bydd myfyrwyr sydd ag ystafell o'r fath hon, ac sy'n canfod yn hwyrach nad ydynt yn gallu mynychu'r brifysgol, yn cael eu gofyn am y rhent tan fod yr ystafell yn gallu cael ei hailosod i rywun arall.

Os bydd myfyriwr sydd wedi profi oedi yn cytuno i ryddhau ei ystafell, bydd y Gwasanaethau Preswyl yn cadw'r blaendal ac yn ceisio ei adleoli i ystafell arall ar ôl iddo gyrraedd. Os nad oes ystafell ar gael, rhoddir cymorth, drwy'r Gwasanaethau Llety Myfyrwyr, i chwilio am lety preifat ac ad-delir y blaendal.

Mae hawl gan fyfyrwyr sydd wedi derbyn cynnig ystafell ar-lein heb ei gweld i ganslo'r cynnig hwn o fewn saith diwrnod gwaith o'i dderbyn. Fodd bynnag, os yw'r myfyriwr wedi casglu'r allwedd ac wedi symud i mewn i'r ystafell, nid yw hyn bellach yn berthnasol.

### Myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl neu'n gohirio eu hastudiaethau

Unwaith y bydd eu statws wedi'i gadarnhau gan y Gofrestra Academaidd, bydd myfyrwyr yn gyfrifol am dalu isafswm chwe wythnos o rent o'r dyddiad y cyflwynir y ffurflen. Bydd eu cyfrifoldeb am rent wedi dod i ben ar yr adeg hon, ar yr amod eu bod yn gadael yr ystafell a dychwelyd yr allweddi. Os gellir dod o hyd i denant arall cyn diwedd y chwe wythnos, bydd y ffi cyfnewid tenantiaeth yn cael ei hychwanegu at gyfanswm y gost sy'n ddyledus.

---

## 10. TROSGLWYDDO YSTAFELLOEDD A'R RHESTR AROS

### Trosglwyddo

Mae sawl ffordd y gall myfyriwr drosglwyddo i lety amgen:

- Cyn symud i mewn i breswylfa'r brifysgol, drwy gwblhau ffurflen drosglwyddo cyn-cyrraedd, y mae modd ei lawrlwytho o dudalennau gwe'r adran llety (heb ffi)
- Unwaith rydych yn y llety – bydd tudalen cyfnewid ystafell yn mynd yn fyw ar Facebook lle gall myfyrwyr gyfnewid â myfyriwr arall am ffi o £5
- Neu gallant wneud cais i symud i ystafell wahanol ym mhreswylfeydd y brifysgol am ffi o £50

Nid yw'r Gwasanaethau Preswyl yn addo y bydd yn gallu cydymffurfio â'r holl ofynion a wneir.

http://www.swansea.ac.uk/cy/llety/rheoliadauallyfrynnau/

### Rhestr aros

Bydd rhestr aros ar gyfer preswylfeydd y brifysgol yn agor tua phythefnos ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd. Pennir blaenoriaeth ar gyfer ystafelloedd ar yr un sail â'r dyraniadau gwreiddiol ar gyfer lleoedd mewn llety (gweler uchod). Bydd ystafelloedd gwag a grëir gan fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl neu'n gohirio eu hastudiaethau yn cael eu hystyried cyn i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am gael eu rhyddhau i'r sector preifat, oni bai fod angen am ystafell o fath penodol.

---

## 11. MEDDIANNU YSTAFELL A SYMUD ALLAN

### Dechrau'r flwyddyn academaidd

Ar ddechrau blwyddyn academaidd, mae'n bosibl y bydd ystafelloedd ar gael yn dilyn yr amserlen isod:

### Canol y flwyddyn

Os yw myfyriwr wedi tynnu'n ôl neu wedi gohirio ei astudiaethau ac wedi dychwelyd ei allwedd, mae'n bosibl y gellir llenwi ei ystafell â thenant newydd (nid preswylydd presennol) yn gynt na'r cyfnod rhybudd o chwe wythnos. Bydd staff y Gwasanaethau Preswyl yn cysylltu â thîm y breswylfa i sicrhau y gall yr ystafell gael ei glanhau ar gyfer y preswylydd newydd.

Ni fydd modd dechrau tenantiaeth newydd yn ystod gwyliau'r Nadolig oherwydd cyfyngiadau gweithredol.

### Diwedd y flwyddyn (tenantiaethau 40 wythnos)

Ni fydd myfyrwyr sy'n dymuno aros noson/nosweithiau ychwanegol yn gallu gwneud hynny **oni bai** eu bod wedi cael cytundeb staff y safle a'r Rheolwr Dyrannu. Bydd ffi ychwanegol o £15 ar gyfer pob nos yn cael ei chodi ymlaen llaw.

Ni ellir trefnu llety dros gyfnod yr haf gan denantiaid newydd nes y dydd Llun yn yr wythnos sy'n dilyn dyddiad gadael y myfyrwyr ar y cynharaf, ac efallai na ellir ei drefnu nes y dydd Gwener yn ystod yr wythnos honno, yn ddibynnol ar ymrwymiadau gweithredol eraill. Ceir isafswm aros o bythefnos

---